# Gwaith y Codir Tâl Amdano

## (Gan Gynnwys Gwasanaethau Rheoli Pla)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2. | Nodau ac Amcanion | 4 |
| 3. | Beth yw gwaith y codir tâl amdano? | 4 |
| 4. | Pryd mae'r Cyngor yn codi tâl? | 5 |
| 5. | Newidiadau a Gwelliannau Cyffredinol i'r Cartref | 7 |
| 6. | Gwaith Brys | 7 |
| 7. | Atgyweiriadau Arferol | 9 |
| 8. | Codi Tâl - Symud Cartref | 9 |
| 9. | Cynnwys yr Heddlu | 11 |
| 10. | Rheoli Plâu | 12 |
| 11. | Hysbysu ynghylch Codi Tâl, Adolygiadau ac Apeliadau | 13 |
| 12. | Talu'r Taliadau | 14 |
| 13. | Canslo Taliadau | 15 |


Cyf: WCBC/2024/LF772

# 1. Cyflwyniad

Mae'n hanfodol y gallwn godi tâl am waith a wnawn, os yw'n nodi yng Nghontract Meddiannaeth y Cyngor mai'r deiliaid contract sy'n gyfrifol am y gwaith.

Mae gwaith y codir tâl amdano yn cynnwys gwaith sy'n rhaid i ni ei wneud oherwydd esgeulustod a difrod bwriadol a damweiniol a achosir gan y deiliaid contract, aelod o'r aelwyd neu ymwelydd â'r cartref. Nid yw hyn yn berthnasol i draul rhesymol yn yr eiddo.

Mae hefyd yn cynnwys gwasanaethau i ddelio gyda rhai plâu cartref, a allai arwain at broblemau iechyd y cyhoedd os nad ydynt yn cael eu trin.

Mae codi tâl mewn rhai amgylchiadau yn caniatáu i ni fod yn effeithiol a chael yr adnoddau rydym eu hangen i wneud gwaith rydym yn gyfrifol amdano.

Mae'r polisi hwn yn nodi sut rydym yn codi ac adennill costau sy'n gysylltiedig â gwaith y codir tâl amdano. Mae hefyd yn cynnwys y gwaith atgyweirio a gwasanaethau y gellir codi tâl amdanynt a'r amgylchiadau pan fyddwn yn codi tâl.

Mae'r dogfennau corfforaethol ac adrannol canlynol yn gysylltiedig â'n polisi ar waith y codir tâl amdano. Yn benodol:

- Safon Gosod Adrannol;
- Gweithdrefn Trosglwyddo Contract yr Adran Dai (Cydgyfnewid yn flaenorol)
- Polisi Dyraniadau'r Cyngor;
- Contract Meddiannaeth y Cyngor; a
- Polisi Codi Tâl y Cyngor

## 2. Nodau ac Amcanion

Nod y polisi hwn yw gosod y meini prawf a'r amodau mewn perthynas â'r Cyngor yn codi tâl ar ddeiliaid contract am gost gwaith atgyweirio sydd ei angen yn eu cartrefi.

Amcanion allweddol y polisi yw:

- Cael proses glir a thryloyw i ddelio â gwaith atgyweirio y codir tâl amdano;
- Rhoi syniad clir i ddeiliaid contract o pryd a pham y bydd y Cyngor yn codi tâl am waith atgyweirio;
- Sicrhau fod deiliaid contract yn gwybod y math o waith atgyweirio y bydd y Cyngor yn codi tâl amdano;
- Sicrhau fod pob achos o godi tâl am waith atgyweirio yn cael ei drin mewn modd teg a chyson;
- Sicrhau na ddefnyddir cyllideb atgyweirio'r Cyngor i dalu am wneud gwaith atgyweirio oherwydd difrod neu esgeulustod; a
- Sicrhau bod arian y Cyngor yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosib ac o'r budd mwyaf i ddeiliaid contract.

## 3. Beth yw gwaith y codir tâl amdano?

Mae'r Cyngor yn codi tâl am fathau penodol o waith a gwasanaethau a gwaith a wnawn mewn rhai amgylchiadau.

Os oes rhaid i'r Cyngor neu gontractwr y Cyngor wneud gwaith yn eich cartref, oherwydd esgeulustod neu ddifrod, byddwn yn codi tâl amdano. Mae hyn yn cynnwys difrod damweiniol neu ddifrod a achosir gan aelodau o'ch teulu neu ymwelwyr â'ch cartref.

Byddwn yn rhoi'r cyfle i chi drefnu i weithiwr wneud y gwaith ond rhaid i chi sicrhau eu bod yn gymwys. Gallwch hefyd wneud y gwaith eich hun, ond cofiwch, byddwn yn archwilio'r gwaith ar ôl iddo gael ei gwblhau. Os oes rhaid i ni adfer unrhyw waith anghyflawn neu waith o safon isel, byddwn yn codi tâl arnoch am orfod gwneud hyn.

# 4. Pryd mae'r Cyngor yn codi tâl?

## 4.1 Difrod Damweiniol

Rydych chi'n gyfrifol am unrhyw ddifrod damweiniol ond efallai y bydd modd i chi hawlio cost unrhyw waith trwy eich yswiriant cynnwys y cartref. Dylech gysylltu â'ch cwmni yswiriant i wybod os gallwch wneud hawliad.

Os na allwch wneud y gwaith ac mae'n rhaid i'r Cyngor ei wneud, byddwn yn codi tâl arnoch.

Os nad ydych yn talu neu'n cael trafferth talu, efallai y byddwn dal i wneud y gwaith atgyweirio, yn arbennig os yw difrod wedi gwneud eich cartref yn anniogel. Byddwn, fodd bynnag, yn disgwyl i chi wneud trefniadau i dalu yn ddiweddarach. Mae hyn yn cynnwys trefnu cynllun ad-dalu rheolaidd.

I drefnu cynllun ad-dalu, dylech gysylltu â'ch Swyddfa Ystâd leol. Bydd aelod o'r tîm yn gallu eich helpu.

## 4.2 Difrod sy'n effeithio ar ddiogelwch

Os ydych wedi achosi unrhyw ddifrod i'ch cartref o ganlyniad i esgeulustod, camddefnydd neu ddiofalwch, ac mae hyn yn effeithio ar ddiogelwch eich cartref, bydd y Cyngor yn codi tâl arnoch.

Mae enghreifftiau o waith a fyddai'n effeithio ar ddiogelwch eich cartref yn cynnwys:

- Newid cloeon oherwydd colli allweddi drysau; neu
- gwydr newydd ar ffenest wedi torri

Mewn rhai achosion, bydd y Cyngor yn gwneud yr eiddo yn ddiogel ond byddwn yn codi tâl arnoch am hyn.

## 4.3 Difrod sy'n effeithio ar ddiogelwch - a achosir gan drosedd

Os ydych yn ddioddefwr trosedd ac mae difrod troseddol, er enghraifft, defnyddio grym i gael mynediad, rhaid i chi roi gwybod i'r heddlu. Nid ydym yn codi tâl os ydych yn dilyn y broses a nodir yn y polisi hwn.

Pan rydych yn gadael i'r heddlu wybod ynglŷn â throsedd, byddant yn cynnal yr ymchwiliadau angenrheidiol a rhoi rhif trosedd i chi. Dylech gadw hwn a'i roi pan fyddwch yn cysylltu â ni i drafod y gwaith atgyweirio.

Rhaid i chi hefyd gysylltu â'ch Swyddfa Ystâd leol er mwyn i chi lenwi Ffurflen Datganiad. Bydd aelod o staff yn egluro cynnwys y ffurflen hon i chi a'i llofnodi i ddweud eu bod wedi gwneud hyn.

Gofynnir i chi lenwi a llofnodi'r ffurflen a rhoi datganiad i gefnogi eich achos. Byddwn yn cadw un copi o'r ffurflen a rhoi'r llall i chi ei gadw, pe bai ei angen yn y dyfodol.

Os ydych yn cysylltu â'ch Swyddfa Ystâd leol gyntaf, rhaid i chi ddal gysylltu â'r heddlu. Byddwch yn cael rhif trosedd a bydd yr heddlu'n ymwybodol fod trosedd wedi ei chyflawni.

Os ydych yn gyd-ddeiliad contract, rhaid i'r ddau ohonoch lofnodi'r Ffurflen Datganiad. Os nad yw hyn yn bosib, rhaid i chi egluro'r rheswm wrth y swyddog tai sy'n eich helpu i'w llenwi. Byddant yn ei gofnodi ar y ffurflen.

Mewn achosion ble mae rhywun yn gwrthod llofnodi Ffurflen Datganiad, ni fydd yr heddlu yn trin y digwyddiad fel trosedd. O ganlyniad, byddwn yn codi tâl arnoch am wneud y gwaith.

## 4.4 Difrod Tân

Mewn achosion o ddifrod a achoswyd gan dân, byddwn yn codi tâl am gost unrhyw waith adfer, os oes tystiolaeth i ddangos ei fod wedi ei achosi gan weithredoedd neu esgeulustod unigolyn.

Rhoddir gwybodaeth i'n Tîm Codi Tâl a bydd aelod o'r tîm yn trefnu i godi tâl arnoch am y gwaith.

## 4.5 Cam-drin Domestig

Mewn achosion ble mae difrod oherwydd cam-drin domestig, ni fyddwn yn codi tâl arnoch os ydych wedi dweud wrth heddlu ynglŷn â'r mater a/neu mae'n destun MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth).

Os yw'r sawl sydd wedi bod yn cam-drin yn aros yn yr eiddo neu rydych chi'n aros mewn perthynas gyda nhw ac yn peidio â chymryd camau neu ddwyn achos yn eu herbyn, byddwn fel arfer yn codi tâl am unrhyw waith sydd ei angen.

# 5. Newidiadau a Gwelliannau Cyffredinol i'r Cartref

Rhaid i chi gael caniatâd y Cyngor cyn gwneud unrhyw newidiadau neu welliannau i'ch cartref. Cysylltwch â'ch Swyddfa Ystâd leol cyn dechrau unrhyw waith. Bydd staff yn gallu rhoi gwybodaeth i chi ynglŷn â'n polisi ar gyfer newidiadau a gwelliannau cyffredinol i'ch cartref.

Byddwn yn gadael i chi wybod yn ysgrifenedig os oes gennych ganiatâd i wneud y gwaith a byddwn yn ei archwilio pan fyddwch wedi ei gwblhau. Os nad ydym yn fodlon gyda'r gwaith, neu eich bod wedi gwneud gwaith heb ein caniatâd, byddwn yn codi tâl arnoch os oes rhaid i ni wneud unrhyw waith adfer.

# 6. Gwaith Brys

## 6.1 Dweud ynglŷn â gwaith y tu allan i oriau swyddfa

Mae Delta Wellbeing yn gyfrifol am weinyddu gwaith atgyweirio brys y tu allan i oriau swyddfa.

Bydd Delta Wellbeing yn gwneud ymholiadau i sefydlu a yw eiddo yn berchen i'r Cyngor. Os nad yw unrhyw eiddo yn berchen i'r Cyngor, bydd staff yn cysylltu â'r heddlu neu barti perthnasol arall. Ni fydd gweithwyr y Cyngor yn mynd i eiddo nad yw'n berchen i'r Cyngor.

Os yw contractwyr a benodir gan y Cyngor yn gwneud y gwaith, bydd staff Delta Wellbeing yn cysylltu â nhw gan ddefnyddio'r rhestr o rifau cyswllt a roddwyd iddynt. Mae ein contractau yn nodi bod angen iddynt fynd i argyfyngau y tu allan i oriau swyddfa.

Bydd y gweithiwr Delta Wellbeing hefyd yn cysylltu â'r Swyddog wrth Gefn ar ddyletswydd. Bydd ef/hi yn hysbysu'r deiliad contract os bydd tâl posib, gan nodi'r gost o'r daflen gostau codi tâl cyfredol.

Os yw aelod o'r gwasanaethau brys wedi dweud ynglŷn â gwaith atgyweirio brys, bydd y Swyddog wrth Gefn yn cofnodi manylion y swyddog, enw, rhif ffôn cyswllt, rhif digwyddiad a'u rhif gwasanaeth swyddogol. Bydd hyn yn eu galluogi i gysylltu yn ddiweddarach pe bai angen.

Bydd y Swyddog wrth Gefn yn cofnodi manylion unrhyw sgyrsiau gyda chi neu unrhyw un sy'n ffonio ar eich rhan. Byddant hefyd yn cofnodi os ydych yn fodlon talu unrhyw daliad ai peidio.

Os ydych yn dweud ynglŷn â difrod a achoswyd gan drosedd, byddwn yn eich cynghori i gysylltu â'r heddlu cyn gynted â phosibl, os nad ydych eisoes wedi gwneud hyn, ac i fynd i'r Swyddfa Ystâd leol i lenwi ffurflen datganiad y Cyngor.

Byddwn yn codi tâl arnoch os ydym yn canfod eich bod wedi camarwain gweithwyr Delta Wellbeing ynglŷn â difrifoldeb unrhyw waith atgyweirio. Bydd y Swyddog wrth Gefn ar ddyletswydd yn gwneud y penderfyniad hwn, mewn ymgynghoriad â'r uwch swyddogion perthnasol o'r Cyngor.

Rydym yn anelu i ysgrifennu atoch o fewn 28 diwrnod o wneud y gwaith. Mae hyn i gadarnhau cost derfynol y taliadau atgyweirio a'r opsiynau talu sydd ar gael.

## 6.2 Dweud ynglŷn â gwaith brys yn ystod oriau swyddfa

Gallwch ddweud wrth y Ganolfan Gwasanaeth Tai am y gwaith dros y ffôn neu e-bost. Os ydych yn cysylltu â'r Ganolfan Gwasanaeth Tai ar e-bost, bydd aelod o staff yn eich ffonio.

Rydym yn gwneud hyn, er mwyn i chi wybod fod posibilrwydd y bydd yn rhaid i chi dalu, os ydych eisiau i'r Cyngor wneud unrhyw waith. Pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau anelwn i ysgrifennu atoch i gadarnhau cost lawn y gwaith, a'r dewisiadau sydd ar gael i dalu'r gweddill sy'n ddyledus. Anelwn i wneud hyn o fewn 28 diwrnod o gwblhau'r gwaith.

Nid oes gennym system apwyntiadau ar gyfer gwaith brys 24 awr ond bydd staff yn dweud wrthych pryd y disgwylir i'r gweithiwr alw. Rhaid i chi aros gartref nes eu bod yn cyrraedd a gwneud y gwaith.

Gallwn wneud trefniadau eraill gyda chi os oes amgylchiadau sy'n ei gwneud yn angenrheidiol i chi adael eich cartref, er enghraifft, nid oes gennych wres neu drydan ac mae aelodau o'r teulu yn fregus neu'n ifanc.

Os nad ydych gartref mae fo gweithiwr yn galw ac nid ydych wedi gwneud unrhyw drefniadau eraill gyda ni, byddwn yn codi tâl arnoch ac fe allwn ail-flaenoriaethu eich gwaith atgyweirio.

Byddwn hefyd yn codi tâl arnoch os ydym yn canfod eich bod wedi camarwain staff y Cyngor ynglŷn â difrifoldeb unrhyw waith atgyweirio, er mwyn cael gwneud y gwaith yn gynt.

Os yw unrhyw ddifrod wedi ei achosi gan drosedd, rhaid i chi gysylltu â'ch Swyddfa Ystâd leol i lenwi ffurflen datganiad. Mae hyn yn caniatáu i'r Cyngor ddilyn y mater gyda'r heddlu.

# 7. Atgyweiriadau Arferol

Pan rydych yn dweud ynglŷn â gwaith atgyweirio o ddydd i ddydd, bydd staff yn y Ganolfan Gwasanaeth Tai yn cofnodi cais archwilio/atgyweirio. Bydd yr ymgynghorydd sy'n siarad gyda chi yn rhoi amcangyfrif o'r gost yn seiliedig ar y wybodaeth rydych yn ei rhoi ar y pryd. Bydd angen i chi gadarnhau a ydych am wneud y gwaith eich hun, eich bod yn herio'r taliad neu eich bod eisiau i'r Cyngor wneud y gwaith i chi.

Os ydych wedi dewis i ni wneud y gwaith atgyweirio i chi, byddwn yn cyfrifo cost lawn y gwaith ac anelwn i ysgrifennu atoch i adael i chi wybod o fewn 28 diwrnod o orffen y gwaith. Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor - mae'r ddolen ar y llythyr hysbysu a anfonir atoch gennym. Os ydych wedi penderfynu cyflogi contractwr i wneud y gwaith, neu os ydych yn bwriadu gwneud y gwaith eich hun, rhaid i chi ddechrau'r gwaith o fewn 28 diwrnod o gael ein caniatâd.

Os nad ydych yn caniatáu i'r Cyngor gael mynediad i'ch cartref i wneud unrhyw waith, bydd staff Atgyweirio Tai yn cysylltu â'ch Swyddfa Ystâd leol, i ofyn iddynt ddatrys y mater. Gall yr Arweinydd Tîm Ystâd yn eich Swyddfa Ystâd leol ganslo unrhyw waith atgyweirio nad ydynt yn rhai brys, os ydynt yn meddwl fod hyn yn briodol.

Os nad yw'n bosib datrys y mater, bydd ef/hi yn rhoi'r holl fanylion i'r cyfreithiwr Gorfodaeth Tai, a fydd yn dechrau'r camau cyfreithiol ar gyfer torri eich Contract Meddiannaeth oherwydd diffyg mynediad.

# 8. Codi Tâl - Symud Cartref

## 8.1 Dod â'ch Contract Meddiannaeth i ben

Pan fyddwch yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyngor eich bod yn dod â'ch Contract Meddiannaeth i ben, byddwn yn ymweld â chi i archwilio eich cartref, cyn i chi adael.

Yn ystod yr ymweliad, byddwn yn edrych am unrhyw ddifrod a chymryd ffotograffau pan fo angen.

Os oes tystiolaeth o ddifrod, byddwn yn trafod y mater gyda chi. Bydd gennych y dewis o allu trefnu i'w adfer eich hun, neu gallwn wneud y gwaith ar eich rhan a chodi tâl arnoch am ein costau.

Byddwn yn trefnu i godi tâl arnoch a rhoi bil i chi fel nodir yn y polisi hwn, os ydym yn gwneud y gwaith i chi.

Mewn achosion ble mae difrod, neu mae eitemau wedi eu gadael yn yr eiddo ar ôl i chi adael, byddwn yn cofnodi'r manylion ac asesir beth fydd y swm fydd yn rhaid i chi ei dalu. Byddwn yn anfon bil atoch ar gyfer y gwaith sydd ei angen i'r cyfeiriad newydd a ddarparwyd gennych.

Os nad ydych wedi rhoi cyfeiriad newydd, byddwch yn parhau i fod yn atebol am dalu'r swm hwn os ydych yn ail-ymgeisio i'r Cyngor i gael eich ailgartrefu o fewn 6 blynedd.

## 8.2 Deiliaid Contract yn Marw

Os yw Deiliaid Contract yn marw, byddwn yn edrych ar ein cofnodion i weld a oes unrhyw gostau'n ddyledus ar gyfer gwaith atgyweirio neu symud eitemau a adawyd pan ddychwelir yr allweddi i'r eiddo. Byddwn yn cysylltu ag unrhyw aelodau o'r teulu, sy'n delio gyda'u hystâd, i wybod os oes unrhyw arian ar gael i glirio costau sy'n ddyledus.

## 8.3 Symud i eiddo arall y Cyngor (Trosglwyddo)

Os ydych wedi gwneud cais i symud i eiddo Cyngor arall ac rydym yn ystyried eich cais, bydd aelod o staff o'ch Swyddfa Ystâd leol yn ymweld â chi gartref.

Bwriad yr ymweliad yw gweld a oes unrhyw broblemau gyda'ch contract meddiannaeth cyfredol, er enghraifft, difrod i'r eiddo neu gyflwr eich gardd.

Gallai difrod olygu na fyddwch yn cael eich cynnwys ar y gofrestr dai mewn achosion difrifol iawn, neu y bydd eich cais ar gyfer ailgartrefu yn cael ei roi ym Mand 5, oherwydd torri amodau'r contract meddiannaeth.

Os yw eich gardd mewn cyflwr gwael, gallai hyn hefyd effeithio ar eich cais i drosglwyddo.

Byddwn yn ceisio dweud wrthych yn ystod yr ymweliad os oes unrhyw broblemau a gadael i chi wybod sut i'w cywiro.

Nes y gallwch ymdrin ag unrhyw broblemau, neu dalu unrhyw daliadau o ganlyniad i'r Cyngor yn gorfod gwneud unrhyw waith atgyweirio, symud eitemau a adawyd neu weithio i ddod â'ch gerddi i safon dderbyniol, mae'n annhebygol y byddwch yn cael eich ystyried ar gyfer trosglwyddiad.

### 8.4 Eiddo Cymdeithas Dai (Enwebu)

Os ydym wedi eich enwebu i Gymdeithas Tai ar gyfer ailgartrefu, bydd aelod o staff o'ch Swyddfa Ystâd leol hefyd yn ymweld â chi gartref.

Bwriad yr ymweliad fydd archwilio eich cartref a hysbysu'r Gymdeithas Tai os yw mewn cyflwr da neu a oes unrhyw broblemau megis difrod.

Mae'n debygol y bydd unrhyw broblemau yn effeithio ar eich siawns y bydd Cymdeithas Tai yn cynnig eiddo i chi

### 8.5 Trosglwyddo eich Contract Meddiannaeth i unigolyn arall (a elwir hefyd yn Gydgyfnewid)

Byddwn hefyd yn ymweld â chi gartref, os ydych wedi ymgeisio i drosglwyddo eich contract meddiannaeth i ddeiliaid contract arall Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, awdurdod lleol arall neu gymdeithas tai.

Os oes unrhyw broblemau gyda difrod, gall hyn effeithio ar eich gallu i drosglwyddo eich contract. Bydd staff yn trafod hyn gyda chi, i adael i chi wybod pa waith sydd angen i chi ei wneud a chytuno ar amserlen ar gyfer ei gwblhau.

Bydd unrhyw broblemau gyda chyflwr eich cartref, gan gynnwys difrod, yn effeithio ar pryd y gallwch drosglwyddo eich contract. Mewn rhai achosion, gall ei atal rhag digwydd.

## 9. Cynnwys yr Heddlu

### 9.1 Mynediad drwy Rym - Canfod at Atal Trosedd

Mae achlysuron pan fydd rhaid i'r heddlu gael mynediad i gartref rhywun, ar gyfer atal neu ganfod trosedd.

Pan fo cyrch gan yr heddlu yn llwyddiannus ac mae tystiolaeth o drosedd, bydd y Cyngor yn codi tâl arnoch, ar gyfer cost unrhyw waith atgyweirio sydd ei angen.

### 9.2 Mynediad drwy Rym - Amgylchiadau Eraill

Ni fyddwn yn codi tâl arnoch, os oes rhaid i ni gysylltu â'r heddlu i gael mynediad drwy rym os fydd argyfwng. Er enghraifft, os yw rhywun yn sâl neu wedi cael damwain yn y cartref ac roedd angen i ni gael mynediad ar gyfer y gwasanaethau brys neu'r Meddyg Teulu.

# 10. Rheoli Plâu

Os oes gennych bla o blâu cyffredin, gallwn ddarparu'r driniaeth angenrheidiol i ddatrys y broblem. Mae'r holl ffioedd rheoli plâu yn amodol ar adolygiad, yn dibynnu ar y costau a ddarperir gan y contractwr rydym wedi ei gyflogi. Gallwch ddefnyddio darparwr arall os ydych yn dymuno.

- Llygod mawr;
- Llygod;
- Llau Gwely;
- Cacwn;
- Gwenyn;
- Morgrug;
- Chwain;
- Wiwerod;
- Pryfaid; a
- Morgrug adeiniog

Ar gyfer holl blâu eraill, er enghraifft pryfed arian neu bryfed lludw, bydd angen i ni gynnal arolwg cychwynnol, am gost, i ganfod pa fath o bla ydyw a pha gamau adferol sydd eu hangen.

Os na allwn ddatrys y broblem pan wneir yr arolwg, bydd angen i ni drefnu ymweliad pellach. Cytunir ar gost yr ymweliad hwn ymlaen llaw, gyda'r contractwr sy'n gwneud y gwaith i ni.

Byddwn yn gadael i chi wybod beth yw'r gost o flaen llaw. Byddwch yn gallu penderfynu a ydych eisiau gwneud y gwaith ai peidio.

Mewn achos o lygod mawr a llygod, byddwn bob amser yn gwneud y gwaith, os ydych yn gorfod talu ai peidio.

Byddwn yn codi tâl arnoch am y gwasanaeth hwn, ar ôl gwneud y gwaith, os ydym yn canfod fod y pla o ganlyniad uniongyrchol i rywbeth rydych chi, neu aelod o'ch aelwyd wedi ei wneud neu wedi methu ei wneud.

Gan y darperir yr holl wasanaethau rheoli plâu gan gontractwr allanol, mae taliadau yn amodol ar adolygiad.  Byddant yn dibynnu ar y costau a ddarperir gan y contractwr.

Fodd bynnag, bydd angen i chi dalu ymlaen llawn am drin unrhyw bla arall a restrir yn y polisi hwn.

# 11. Hysbysu ynghylch Codi Tâl, Adolygiadau ac Apeliadau

## 11.1 Hysbysu

Byddwn yn anfon llythyr atoch i adael i chi wybod os oes rhaid i chi dalu a'r swm sy'n rhaid i chi ei dalu.

Mae mwy o wybodaeth am daliadau ar gael ar dudalennau Tai ein gwefan.  Mae hyn yn cynnwys egluro pam y codwyd tâl arnoch a'r trefniadau y gallwch eu gwneud i ad-dalu faint sy'n ddyledus.

## 11.2 Ceisiadau am Adolygiadau

Os ydych yn meddwl fod y swm a godwyd arnoch yn anghywir, neu na ddylid codi tâl arnoch, mae gennych 28 diwrnod i ofyn am adolygiad.

Dylid anfon ceisiadau at:

**Gwasanaethau Tai**
**Ffordd Rhuthun**
**Wrecsam**
**LL13 7TU**

Os nad ydych yn gofyn am adolygiad o benderfyniad i godi tâl arnoch o fewn y 28 diwrnod, byddwn yn cysylltu â chi eto i adael i chi wybod fod y taliad wedi ei dynnu o'ch is-gyfrif rhent.

# 12. Talu'r Taliadau

## 12.1 Talu mewn Swyddfa Ystâd leol

Ble bynnag fo'n bosib, dylech geisio talu unrhyw daliad yn eich Swyddfa Ystâd leol. Mae hyn er mwyn sicrhau fod y swm rydych yn ei dalu'n cael ei gredydu i'r cyfrif cywir.

## 12.2 Talu mewn lleoliad arall

Fodd bynnag, fe allwch dalu yn y lleoliadau canlynol os yw'n fwy cyfleus i chi:

- Unrhyw Swyddfa Ystâd leol arall yn y Fwrdeistref Sirol;
- Defnyddio **adnodd talu ar-lein y Cyngor** (ewch i:  Trigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam;
- Defnyddio llinell ffôn ddynodedig y Cyngor: 0300 333 6500
- Dros y ffôn trwy'r Ganolfan Gwasanaeth Tai: 01978 298993

Os ydych yn talu mewn lleoliad arall, dylech fynd a'r dderbynneb i'ch Swyddfa Ystâd leol.  Bydd hyn yn sicrhau bod y swyddogion tai yn ymwybodol eich bod wedi talu.

## 12.3 Peidio â Thalu

Os nad ydych yn talu, ar ôl i ni wneud y gwaith, byddwn yn anfon llythyr atgoffa terfynol atoch, i adael i chi wybod bod taliad yn ddyledus ac i ofyn i chi wneud taliad.

Mewn achosion ble nad oes cydweithrediad, byddwn yn rhoi holl fanylion yr achos i'n Tîm Adennill Dyled er mwyn dechrau'r camau adennill angenrheidiol.

# 13. Canslo Taliadau

## 13.1 Sut rydym yn canslo taliadau

Bydd pob penderfyniad i ganslo taliadau yn cael ei wneud gan y Rheolwr Gwasanaeth - Tai a'r Arweinydd Atgyweirio Eiddo.

I ddechrau, bydd staff yn yr Adran Dai yn casglu'r holl wybodaeth ynglŷn â'r achos a'i hanfon at y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac at yr Arweinydd Atgyweirio Eiddo, i wneud penderfyniad ynglŷn â chanslo.

Byddwn yn cysylltu â chi i adael i chi wybod, os yw taliad wedi ei ganslo.